WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mehefin 2010

**Awdur: Archwilydd Cyffredinol Cymru** **Cyf: 331A2010**

# Llythyr Archwilio Interim 2009-10 - Cyrff rhagflaenol

# **Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 5 |
| **Llythyr Manwl** | |
| **Defnyddiwyd adnoddau'r cyrff rhagflaenol yn briodol ymhob ffordd berthnasol a rhoddwyd cyfrif priodol amdanynt ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009** | 7 |
| Cafodd cyfrifon pob corff rhagflaenol ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009 eu paratoi'n briodol ac roeddent yn gywir ymhob ffordd berthnasol, er i ni dynnu sylw at yr ansicrwydd ynghylch costau gofal iechyd parhaus | 7 |
| Llwyddodd alldro cyfun y cyrff rhagflaenol adeg eu diddymu i fantoli'r gyllideb, er bod risgiau ariannol sylweddol y mae angen mynd i'r afael â hwy wrth fynd ymlaen | 10 |
| Roedd systemau ariannol pwysig y cyrff rhagflaenol yn gyffredinol addas at y diben ar gyfer cyfnod cau'r cyfrifon | 10 |
| **Roedd gan y cyrff rhagflaenol drefniadau corfforaethol priodol ar waith i'w helpu i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol er bod y Bwrdd, er gwaethaf rhywfaint o gynnydd, wedi etifeddu nifer o heriau mewn meysydd darparu gwasanaeth penodol** | 11 |
| Nid oedd unrhyw wendidau sylweddol yn nhrefniadau'r cyrff rhagflaenol i'w helpu i gyflawni darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau | 11 |
| Er gwaethaf rhywfaint o gynnydd, amlygodd adolygiadau archwilio perfformiad y ffaith bod rhagor o heriau a meysydd i'w gwella o hyd o ran rheoli cyflyrau cronig, rhagnodi, gwasanaethau mamolaeth, oriau gwaith meddygon iau, absenoldeb oherwydd salwch a gweithio mewn partneriaeth | 11 |
| **Rheolwyd y broses ad-drefnu ar draws cymuned iechyd Cwm Taf yn gymharol dda ond mae angen i'r Bwrdd newydd ganolbwyntio fwy ar wireddu buddiannau'r ad-drefnu a pharatoi i gyflawni'r swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan Gomisiwn Iechyd Cymru** | 12 |

**Atodiadau**

| | |
|---|---|
| Casgliad(au) ar drefniadau'r cyrff rhagflaenol ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 30 Medi 2009 i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau | 14 |
| Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r cyrff rhagflaenol yn ystod y chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009 i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau | 15 |
| Adroddiadau a gyflwynwyd ers mis Medi 2009 | 16 |
| Adroddiadau Archwilio Perfformiad | 17 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Crynodeb

1. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol interim hwn i Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf (y Bwrdd) yn ymwneud â'm harchwiliadau o chwe mis terfynol cyrff rhagflaenol y Bwrdd hyd at 30 Medi 2009. Nodwyd y gwaith y sonnir amdano yn y Llythyr yn y Strategaethau Archwilio y cytunwyd arnynt ar gyfer y sefydliadau canlynol:
   - Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf
   - Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful
   - Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf
2. Mae'r Llythyr hwn yn hysbysu aelodau'r Bwrdd am y materion o bwys sy'n codi o'r archwiliadau hynny, ynghyd â'm sylwadau ar faterion cyfredol eraill.
3. Wynebodd rhagflaenwyr y Bwrdd newidiadau a heriau sylweddol yn eu chwe mis olaf. Yn bennaf, roedd angen iddynt baratoi ar gyfer y rhaglen ddiwygio yn GIG Cymru, a arweiniodd at eu diddymu, a sefydlu'r Bwrdd newydd ar 1 Hydref 2009. Cyfrannodd rhagflaenwyr y Bwrdd at y trefniadau pontio o fewn cymuned iechyd Cwm Taf. Nod y trefniadau hyn oedd rheoli'r risgiau o ran parhad busnes ac adnoddau ariannol a dynol a'r risgiau niferus eraill sy'n gysylltiedig â'r rhaglen ddiwygio.
4. Roedd y trefniadau hefyd yn cwmpasu cyfnod cyfrifyddu'r broses ddiddymu a chyflwyno Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).
5. Canolbwyntiodd fy ngwaith yn ystod y cyfnod hwn ar archwilio datganiadau ariannol ac adroddiadau etifeddiaeth y cyrff sy'n dirwyn i ben a rhoi casgliad ar b'un a oedd gan y cyrff drefniadau priodol ar waith yn ystod y cyfnod i'w helpu i gyflawni darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau. Roedd hefyd yn cynnwys gwaith a archwiliodd y trefniadau pontio ar gyfer sefydlu'r Bwrdd newydd fel rhan o'r broses o ad-drefnu'r GIG yng Nghymru. Roedd y gwaith yn seiliedig ar elfennau allweddol o'm cyfrifoldebau fel y'u nodir yn y Cod Ymarfer Archwilio (y Cod)[1].
6. Nodwyd y ffioedd archwilio ar gyfer y gwaith yn ystod y cyfnod hwn yn y Strategaethau Archwilio y cytunwyd arnynt ar gyfer pob corff rhagflaenol.
7. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyflwynwyd gennyf i sefydliadau'r GIG a ddiddymwyd a'r Bwrdd newydd. Trafodwyd yr adroddiadau hyn gan archwilwyr, a chytunwyd

---

[1] Gwnaf sawl cyfeiriad yn y Llythyr hwn at ganllawiau a dogfennaeth a gyflwynwyd gennyf, gan gynnwys y Cod Ymarfer Archwilio. Roedd hyn yn berthnasol i'r cyfnod archwilio cyfan ac mae'n cyfeirio at y Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilwyr ac Arolygwyr a Chyrff a Archwilir ac a Arolygir sy'n crynhoi cyfrifoldebau allweddol archwilwyr. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn y Datganiad hwnnw. Dylid ystyried fy sylwadau am ganlyniadau fy archwiliad yng nghyd-destun y cefndir mwy ffurfiol hwnnw.

arnynt gyda swyddogion ac fe'u cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio perthnasol. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 3.

8. Daeth fy ngwaith archwilio ariannol i'r casgliad bod adnoddau'r cyrff rhagflaenol, ymhob ffordd berthnasol, wedi cael eu defnyddio'n briodol a rhoddwyd cyfrif priodol amdanynt ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009:
   - cafodd cyfrifon pob corff rhagflaenol ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009 eu paratoi'n briodol ac roeddent yn gywir ymhob ffordd berthnasol, er i ni dynnu sylw at yr ansicrwydd ynghylch costau gofal iechyd parhaus;
   - noda alldro cyfun y cyrff rhagflaenol adeg eu diddymu a'r rhagolygon hyd at ddiwedd y flwyddyn y llwyddwyd i fantoli'r gyllideb, er bod risgiau ariannol sylweddol y mae angen mynd i'r afael â hwy wrth fynd ymlaen;
   - roedd systemau ariannol pwysig y cyrff rhagflaenol yn gyffredinol addas at y diben ar gyfer cyfnod cau'r cyfrifon.

9. Daeth fy ngwaith archwilio perfformiad i'r casgliad bod gan y cyrff rhagflaenol drefniadau corfforaethol priodol ar waith i'w helpu i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol, er bod y Bwrdd, er gwaethaf rhywfaint o gynnydd, wedi etifeddu nifer o heriau mewn meysydd darparu gwasanaeth penodol:
   - nid oedd unrhyw wendidau sylweddol yn nhrefniadau'r cyrff rhagflaenol i'w helpu i gyflawni darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;
   - er gwaethaf rhywfaint o gynnydd, amlygodd adolygiadau archwilio perfformiad y ffaith bod rhagor o heriau a meysydd i'w gwella o hyd o ran rheoli cyflyrau cronig, rhagnodi, gwasanaethau mamolaeth, oriau gwaith meddygon iau, absenoldeb oherwydd salwch a gweithio mewn partneriaeth.

10. Dangosodd y gwaith a wneuthum mewn ymateb i ad-drefnu'r GIG fod y rhaglen bontio ar draws cymuned iechyd Cwm Taf wedi cael ei rheoli'n gymharol dda, ond mae angen i'r Bwrdd newydd ganolbwyntio fwy ar wireddu buddiannau'r ad-drefnu a pharatoi i gyflawni'r swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan Gomisiwn Iechyd Cymru.

11. Mae angen i'r Bwrdd newydd ystyried y canfyddiadau hyn. Bydd yr adroddiadau etifeddiaeth sy'n dwyn ynghyd brif ganfyddiadau gwaith archwilio allanol diweddar ymhob un o'r cyrff sy'n dirwyn i ben yn helpu gyda hyn.

12. Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno â'r Llythyr hwn, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ac y rhoddwyd copi ohono i bob aelod o'r Bwrdd.

13. Fy nod yw sicrhau y cynhelir archwiliad o safon uchel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol ac ymarferol ac sy'n ategu agenda'r Bwrdd ei hun. Rwyf yn ddiolchgar i'ch rhagflaenwyr a'u staff am eu cymorth yn ystod yr archwiliad.

## Defnyddiwyd adnoddau'r cyrff rhagflaenol yn briodol ymhob ffordd berthnasol a rhoddwyd cyfrif priodol amdanynt ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009

14. Mae'r datganiadau ariannol yn ffordd hanfodol o roi cyfrif am y modd y mae corff yn gwarchod yr adnoddau sydd ar gael iddo a'i berfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny.

15. Fel yr archwilydd allanol i'r tri chorff rhagflaenol, mae'n ofynnol i mi archwilio datganiadau ariannol pob un ohonynt a chyhoeddi adroddiad archwilydd. Mae'n rhaid i'r adroddiad hwn gynnwys barn ar b'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg. Mae hefyd yn ofynnol i mi gael sicrwydd bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

16. Mae ein gwaith archwilio ariannol yn cwmpasu'r meysydd allweddol canlynol:
    - datganiadau ariannol (neu gyfrifon);
    - cyflwr ariannol;
    - rheoli ariannol;
    - systemau ariannol.

### Cafodd cyfrifon pob corff rhagflaenol ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009 eu paratoi'n briodol ac roeddent yn gywir ymhob ffordd berthnasol, er i ni dynnu sylw at yr ansicrwydd ynghylch costau gofal iechyd parhaus

17. Eleni roedd yn ofynnol i'r cyrff gyflwyno eu cyfrifon chwe mis heb eu harchwilio i Swyddfa Archwilio Cymru erbyn 7 Rhagfyr 2009. Llwyddodd y cyrff i fodloni'r dyddiad targed hwn i raddau helaeth, ac ategwyd y cyfrifon gan bapurau gwaith ac atodlenni o safon dda. O ganlyniad, llwyddwyd i gyflwyno'r cyfrifon archwiliedig i Lywodraeth y Cynulliad erbyn 1 Mawrth 2010. Roedd hwn yn gyflawniad arbennig o ystyried y gwaith ychwanegol a fu'n ofynnol i weithredu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a pharatoi ar gyfer y gwaith o ad-drefnu'r GIG.

18. Mae'n ofynnol i mi o dan Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n codi o'm gwaith i'r ‘rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu’ (y Pwyllgor Archwilio) cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Mhartner Ymgysylltu adroddiad ar y materion hyn i'r Pwyllgor Archwilio ar 22 Chwefror 2010 cyn i bob cyfres o'r cyfrifon terfynol gael ei chymeradwyo gan y Bwrdd a'i llofnodi gan y Swyddog Atebol. Nodir y materion allweddol yn Arddangosyn 1.

**Arddangosyn 1: Gofynion adrodd ISA 260**

| Gofyniad adrodd | Ymateb yr Archwilydd |
|---|---|
| Addasiadau disgwyliedig i adroddiad yr archwilydd. | **Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf**<br>Ni wneuthum unrhyw addasiadau i'm hadroddiad.<br>**Byrddau Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful**<br>Gwneuthum addasu'r ddau adroddiad i gynnwys nodyn pwysleisio mater, gan dynnu sylw at yr ansicrwydd ynghylch costau gofal iechyd parhaus, yn sgîl ceisiadau a gafwyd am ad-daliadau o gostau gofal parhaus nas aseswyd eto. |
| Camddatganiadau nas addaswyd. | Nid oedd yr addasiadau i'r cyfrifon yn dilyn ein harchwiliad yn berthnasol.<br>Cododd y camddatganiadau canlynol nas cywirwyd sydd, gyda'i gilydd, yn uwch na'r trothwy lle byddaf yn gofyn am i'r cyfrifon gael eu diwygio:<br>***Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf***<br>• Mae'r IFRS yn ei gwneud yn ofynnol nodi swm cronedig ar gyfer gwyliau blynyddol nas talwyd. Cyfrifodd yr Ymddiriedolaeth y swm cronedig hwn yn seiliedig ar y sefyllfa wyliau ar 31 Mawrth 2009. Amcangyfrifodd ymarfer ddechrau mis Chwefror 2010 y sefyllfa o ran gwyliau blynyddol ar 30 Medi 2009, a nododd fod angen swm cronedig pellach o £325,000.<br>• Roedd darpariaethau yn cynnwys £256,000 o falansau Agenda ar gyfer Newid y cytunwyd arnynt bellach i raddau helaeth. Gan fod taliadau ar gyfer y dyfodol yn hysbys, dylid dangos y symiau hyn o fewn yr adran Credydwyr. Fe'n hysbyswyd gan reolwyr yr Ymddiriedolaeth nad yw cyfrifon ffurflen Llywodraeth y Cynulliad yn caniatáu'r addasiad hwn. Yn unol â hyn, derbyniwn na ddylai'r Ymddiriedolaeth wneud yr addasiad hwn - ond mae'n ofynnol i ni dynnu sylw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu at y ffaith nad yw'r mater cyfrifyddu technegol hwn yn llwyr ddilyn safonau cyfrifyddu.<br>• Cwblhawyd ailbrisiad o Asedau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth yn unol â sail Asedau Cyfatebol Modern (MEA) ar 1 Ebrill 2009. Mae ISA16 yn ei gwneud yn ofynnol y dylai ailbrisiadau fod yn berthnasol i bob ased o fewn dosbarthiad. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth wedi penderfynu nad oes angen pedwar safle erbyn hyn. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflymu taliadau dibrisio, er mwyn i'r asedau hyn gael eu dibrisio yn unol â'u Gwerth ar y Farchnad Agored dros weddill eu hoes ddefnyddiol, felly ni chwblhawyd ailbrisiadau ar gyfer yr asedau hyn. Nid yw triniaeth yr Ymddiriedolaeth yn unol â gofynion ISA16, mae angen lleihad mewn gwerth o £1.214 miliwn yn erbyn asedau tir.<br>• Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymhwyso dull mynegeio i'w sail asedau ar 1 Ebrill 2009. Ers hynny, mae canllawiau hwyr a gafwyd gan Lywodraeth y |

| Gofyniad adrodd | Ymateb yr Archwilydd |
| --- | --- |
| | Cynulliad wedi awgrymu mai dim ond hanner y mynegeio hwn y dylid ei gynnwys o fewn y datganiadau ariannol hyd at 30 Medi 2009 (cyfwerth â chwe mis). |
| | **Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful**<br>• Amcangyfrifwyd Costau Fferyllfeydd ar gyfer mis Medi 2009. Noda ffigurau terfynol a dderbyniwyd cyn cwblhau ein harchwiliad y dylid cynyddu'r costau £37k.<br>• Cadarnhaodd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Chwefror 2010 eu bod yn fodlon bod rhesymau'r rheolwyr dros beidio â gwneud addasiadau yn briodol. |
| Gwendidau perthnasol yn y systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol a nodwyd yn ystod yr archwiliad. | Ni chododd unrhyw faterion. |
| Safbwyntiau ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol yr endid. | Ni chododd unrhyw faterion. |
| Materion y mae'n ofynnol iddynt, o dan safonau archwilio eraill, gael eu cyfleu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. | Ni chododd unrhyw faterion. |
| Unrhyw faterion perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r archwiliad. | Ni chododd unrhyw faterion. |

19. Deuthum i'r casgliad fod holl gyfrifon y rhagflaenwyr yn rhoi darlun cywir a theg o'u sefyllfa ar 30 Medi 2009. Roeddwn hefyd yn ddigon bodlon bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

20. Ar gyfer cyfrifon terfynol y ddau Fwrdd Iechyd Lleol rhagflaenol, gwneuthum gynnwys nodyn pwysleisio mater gyda'm hadroddiad archwilio. Roedd yn tynnu sylw at yr ansicrwydd ynghylch costau gofal iechyd parhaus yn sgîl ceisiadau a gafwyd i ad-dalu costau gofal parhaus nas aseswyd eto.

21. Rhoddais fy marn ar y cyfrifon a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â'r amserlen ofynnol.

## Llwyddodd alldro cyfun y cyrff rhagflaenol adeg eu diddymu i fantoli'r gyllideb, er bod risgiau ariannol sylweddol y mae angen mynd i'r afael â hwy wrth fynd ymlaen

22. Gweithiodd y cyrff rhagflaenol gyda'i gilydd i ddatblygu cynllun ariannol ar y cyd ar gyfer 2009-10. Roedd y cynllun yn ystyried amrywiaeth o faterion gan gynnwys llifoedd ariannu a ragwelwyd, diffygion sylfaenol ac ymrwymiadau cyfalaf. Nododd y cynllun cychwynnol fwlch ariannu posibl o £30.2 miliwn rhwng yr adnoddau a oedd ar gael a'r ymrwymiadau ariannol disgwyliedig. Nodwyd amrywiaeth o gynlluniau arbedion ac fe'u rhoddwyd ar waith er mwyn helpu i ymdopi â'r diffyg ariannol. Adeg eu diddymu ar 30 Medi 2009, dangosodd yr alldro terfynol warged net cyffredinol bach ar gyfer y cyfnod o chwe mis, (er bod bwlch ariannu sylfaenol o tua £19.5 miliwn yn cael ei gofnodi o hyd):
    - diffyg Ymddiriedolaeth Cwm Taf £4.587 miliwn;
    - diffyg Merthyr Tudful £599k;
    - gwarged Rhondda Cynon Taf £5.982 miliwn.
23. Parhaodd y Bwrdd i reoli'r risgiau ariannol a nodwyd ganddo drwy gydol ei chwe mis cyntaf o weithredu. Nodwyd bod y gyllideb wedi'i mantoli ar ddiwedd y flwyddyn, gyda'r datganiadau ariannol drafft heb eu harchwilio ar gyfer 2009-10 yn dangos tanwariant bach o £18,000. Fodd bynnag, nodwn mai dim ond ar ôl cael tua £10 miliwn o arian ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Mawrth 2010 y cyflawnwyd hyn.
24. Erys y gallu i barhau i fantoli'r gyllideb yn risg sylweddol, gyda phwysau ariannol allweddol yn wynebu'r Bwrdd o ran cyflawni targedau Mynediad 2009, costau gofal iechyd parhaus a'r lefel twf is.
25. Roedd gwaith cynaliadwyedd ariannol yn gadarn ar draws y cyrff etifeddiaeth gydag amrywiaeth o gynlluniau arbedion ar waith. Mae'r Grŵp Cynaliadwyedd Ariannol yn gyfrifol am fonitro arbedion a nodwyd a chytuno arnynt, ac mae'n cydgysylltu â Llywodraeth y Cynulliad er mwyn cytuno ar gynlluniau ariannol Tymor Canolig (tair i bum mlynedd) cytbwys.

## Roedd systemau ariannol pwysig y cyrff rhagflaenol yn gyffredinol addas at y diben ar gyfer cyfnod cau'r cyfrifon

26. Roedd ein hadolygiad o systemau ariannol y cyrff yn cynnwys dogfennu'r systemau ariannol pwysig a, lle bo angen, profi gweithrediad rheolaethau mewnol.
27. Daethom i'r casgliad y gellir dibynnu ar systemau ariannol pwysig pob un o gyrff y GIG a ddiddymwyd i gynhyrchu canlyniadau sy'n gywir mewn ffyrdd perthnasol. Mae'r archwiliad yn awgrymu rhai mân argymhellion ar gyfer gwella a gaiff eu hystyried o fewn Memorandwm Ariannol ein Bwrdd Iechyd Lleol i'w gyhoeddi'n ddiweddarach eleni, a thrafodwyd y materion hyn gyda rheolwyr y Bwrdd Iechyd Lleol. Rwy'n fodlon bod rheolaethau digolledu priodol ar waith i atal a chanfod gwallau perthnasol a bod y Swyddog Atebol wedi cyfeirio'n briodol at y materion rheolaeth hyn yn ei Datganiadau o Reolaeth Fewnol.

## Roedd gan y cyrff rhagflaenol drefniadau corfforaethol priodol ar waith i'w helpu i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol er bod y Bwrdd, er gwaethaf rhywfaint o gynnydd, wedi etifeddu nifer o heriau mewn meysydd darparu gwasanaeth penodol

### Nid oedd unrhyw wendidau sylweddol yn nhrefniadau'r cyrff rhagflaenol i'w helpu i gyflawni darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau

28. Wrth archwilio cyfrifon y cyrff rhagflaenol bob cyfnod, mae'n ofynnol i mi o dan Adran 61(3) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fodloni fy hun eu bod wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau. Adlewyrchir y gofyniad hwn hefyd yn y Cod. Nodir fy nghyfrifoldebau a'm casgliad ffurfiol ar drefniadau'r cyrff ar gyfer y cyfnod o chwe mis yn Atodiad 1.

29. At ddibenion fy ngwaith, gwerthusais systemau pob corff yn erbyn nifer o gwestiynau a nodir yn Atodiad 2. Ar gyfer pob cwestiwn, rwyf yn ystyried a oes bylchau yn y trefniadau y disgwylir iddynt fod ar waith, ac arwyddocâd y bylchau hynny.

30. Yn dilyn fy adolygiad o drefniadau'r cyrff rhagflaenol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau, deuthum i'r casgliad nad oes unrhyw wendidau sylweddol a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i mi roi barn anffafriol. Fodd bynnag, mae mater y mae angen i'r Bwrdd ymdrin ag ef*:*

    - Mae angen i'r Bwrdd wneud cynnydd wrth gwblhau strategaeth ariannol tymor canolig er, fel y nodwyd yn gynharach yn y Llythyr hwn, mae gwaith yn y maes hwn yn mynd rhagddo mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad.

### Er gwaethaf rhywfaint o gynnydd, amlygodd adolygiadau archwilio perfformiad y ffaith bod rhagor o heriau a meysydd i'w gwella o hyd o ran rheoli cyflyrau cronig, rhagnodi, gwasanaethau mamolaeth, oriau gwaith meddygon iau, absenoldeb oherwydd salwch a gweithio mewn partneriaeth

31. Er mwyn cefnogi datblygiad sefydliadol sefydliadau newydd y GIG, rwyf wedi paratoi adroddiadau etifeddiaeth ar gyfer pob un ohonynt sy'n cynnwys crynodeb o ganfyddiadau a negeseuon allweddol gwaith archwilio perfformiad diweddar a gynhaliwyd yn y cyrff rhagflaenol perthnasol.

32. Ar gyfer y Bwrdd, dangosodd y gwaith hwn y canlynol:

    - er gwaethaf rhai trefniadau rheoli a chanlyniadau perfformiad gwell, gosododd cyflyrau cronig faich sylweddol ar wasanaethau iechyd lleol o hyd, yn arbennig y sector aciwt;

- roedd trefniadau Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf ar gyfer rheoli rhagnodi ym maes gofal sylfaenol wedi cyfrannu at well perfformiad yn erbyn targedau rhagnodi cenedlaethol a gostyngiadau o ran costau rhagnodi, er bod cyfleoedd i wneud rhagor o gynnydd;
- nododd ein gwaith mewn perthynas â gwasanaethau mamolaeth gyfleoedd i wella'r gwasanaethau hyn ymhellach;
- roedd rhai meddygon iau yn dal i orfod gweithio dros 48 awr yr wythnos, sy'n groes i'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd;
- roedd cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch ar draws gweithlu Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf wedi parhau'n gymharol uchel ac maent yn rhoi pwysau ar adnoddau;
- roedd trefniadau partneriaeth statudol lleol wedi'u sefydlu'n gymharol dda, ond roedd gennym bryderon o ran cyfraniad Partneriaeth Gwella'r Amgylchedd RhCT i'r ymdrech i gyflawni amcanion amgylcheddol strategol.

33. Mae'r gwaith archwilio perfformiad y cyfeiriais ato mewn strategaethau archwilio blaenorol yn rhan o raglen dreigl o astudiaethau cenedlaethol a lleol. Er bod rhywfaint o'r gwaith hwn wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i'r cyrff rhagflaenol priodol, mae astudiaethau eraill yn mynd rhagddynt o hyd. Cyflwynir adroddiadau ar y gwaith hwn nawr i'r Bwrdd newydd. Bydd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd newydd yn cael adroddiadau ar yr holl waith sy'n mynd rhagddo. Bydd y Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer y Bwrdd yn crynhoi'r adroddiadau hyn. Mae Atodiad 4 yn crynhoi sefyllfa'r amryw brosiectau archwilio perfformiad a gynhwyswyd fel rhan o strategaethau archwilio diweddar cyrff rhagflaenol y GIG.

## Rheolwyd y broses ad-drefnu ar draws cymuned iechyd Cwm Taf yn gymharol dda ar y cyfan ond mae angen i'r Bwrdd newydd ganolbwyntio fwy ar wireddu buddiannau'r ad-drefnu a pharatoi i gyflawni'r swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan Gomisiwn Iechyd Cymru

34. Gwneuthum gynnwys yn fy adroddiad etifeddiaeth ar y cyrff rhagflaenol fy nghanfyddiadau mewn perthynas â'r ffordd y cafodd y broses o ad-drefnu'r GIG ei rheoli ar draws cymuned iechyd Cwm Taf. Deuthum i'r casgliad fod yr ad-drefnu wedi'i reoli'n gyffredinol dda yn unol â'n disgwyliadau, hyd at yr adeg y crëwyd y Bwrdd newydd ar 1 Hydref 2009 ac yn union wedi'r digwyddiad hwnnw. Nodais hefyd bedwar ffactor a ddarparodd sylfeini cadarn i'r broses ad-drefnu a datblygiad y Bwrdd Iechyd yn y dyfodol, fel a ganlyn:

- wrth gynllunio ar gyfer yr ad-drefnu, llwyddodd y gymuned iechyd i ddefnyddio'r profiad a gafwyd wrth uno hen Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg a hen Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a'r Rhondda ym mis Ebrill 2008;
- roedd Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf a Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful eisoes wedi bod yn gweithredu o dan drefniadau tîm rheoli ar y cyd ers mis Ebrill 2008;

- roedd tystiolaeth eisoes o ddull gweithredu clir yn seiliedig ar y gymuned iechyd mewn perthynas â rhai heriau allweddol, yn arbennig cynaliadwyedd ariannol a chynllunio'r gweithlu;
- mae tebygrwydd cymharol yr heriau iechyd ar draws y ddwy ardal awdurdod lleol yn golygu ei bod yn symlach cynllunio gwasanaethau nag y byddai o bosibl fel arall.

35. Er gwaethaf y sylfeini cadarn hyn, pwysleisiais fod angen i'r Bwrdd newydd ganolbwyntio fwy ar wireddu buddiannau'r ad-drefnu a'r buddiannau a oedd yn gysylltiedig ag uno hen Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg a hen Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a'r Rhondda ym mis Ebrill 2008. Roedd y pwyslais cychwynnol ar barhad busnes ond roedd angen i'r Bwrdd feddwl yn fwy radical am newidiadau posibl o ran cynllunio a darparu gwasanaethau, er budd dinasyddion a sefyllfa ariannol y Bwrdd. Er bod hynny o ganlyniad i ffactorau a oedd y tu allan i'w reolaeth uniongyrchol, roedd y broses o benodi'r Cyfarwyddwyr Gweithredol newydd ac aelodau newydd y Bwrdd wedi cymryd yn hwy na'r cyfnod dymunol ac wedi bod yn destun newidiadau ac ansicrwydd pellach.

36. Roedd y gwaith paratoi ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau a gyflawnwyd gan Gomisiwn Iechyd Cymru o dan gyfundrefn Cydbwyllgor newydd ar gam cynnar o hyd ac roedd risgiau a heriau penodol yr oedd angen eu rheoli'n effeithiol yn ystod y cyfnod gweithredu cysgodol hyd at 31 Mawrth 2010. Roedd y risgiau a'r heriau allweddol hyn yn ymwneud â pharhad busnes - yn benodol o ran rheoli gwybodaeth a phobl, rheoli cofnodion a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu - a'r broses o sefydlu trefniadau llywodraethu cadarn i'r Cydbwyllgor.

## Atodiad 1

# Casgliad(au) ar drefniadau'r cyrff rhagflaenol ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009 i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Atebol**

Mae'r Swyddog Atebol ar gyfer pob un o gyrff y GIG yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnydd corff y GIG o adnoddau, a sicrhau stiwardiaeth a llywodraethu priodol. Mae'r Swyddog Atebol hefyd yn gyfrifol am adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn rheolaidd.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd**

Mae cyfrifoldeb arnaf o dan Adran 61(3) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i gasglu o'm harchwiliad o gyfrifon blynyddol pob un o gyrff y GIG a gwybodaeth berthnasol arall a wyf yn fodlon iddo wneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. At ddibenion fy ngwaith yn y maes hwn, rwyf wedi asesu 'trefniadau priodol' yn bennaf fel trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol sefydliad, y diffinnir elfennau pwysig ohonynt ym mharagraff 48 o'r Cod.

Cyflwynaf adroddiad os daw materion o bwys i'm sylw sy'n fy atal rhag casglu bod corff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol o'r fath. Wrth ymgymryd â'm gwaith, nid wyf wedi ystyried a yw'r trefniadau sydd ar waith yn cynrychioli'r holl drefniadau a allai fod ar waith. Nid yw'n ofynnol ychwaith i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried fel rhan o'r agwedd hon ar fy ngwaith, effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith ymhob un o gyrff y GIG ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn ystod y cyfnod a adolygir.

**Casgliad**

Mae'r casgliadau canlynol wedi'u seilio ar waith a gynhaliwyd fel rhan o'm harchwiliadau o'r cyfrifon chwe mis ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 30 Medi 2009 ymhob un o gyrff y GIG, ac mae'n gyfyngedig i'r gwaith hwnnw. Rwyf hefyd wedi seilio fy nghasgliadau ar unrhyw wybodaeth arall yr ystyriais ei bod yn berthnasol i'm harchwiliad, i gadarnhau, ymhob ffordd berthnasol, pa drefniadau a oedd ar waith gan bob un o gyrff y GIG yn ystod y cyfnod i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Yn seiliedig ar y Datganiadau o Reolaeth Fewnol, ac o ganlyniad i'r gwaith a gynhaliwyd fel rhan o'm harchwiliadau o gyfrifon chwe mis pob un o gyrff y GIG ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 30 Medi 2009, a'r holl wybodaeth arall yr ystyriais ei bod yn berthnasol, rwy'n fodlon ar y cyfan bod trefniadau i helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd a wneir o adnoddau ar waith yng nghyrff canlynol y GIG:

- Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf *[yn amodol ar y materion y cyfeirir atynt ym mharagraffau 28 i 36]*
- Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf a Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr *[yn amodol ar y materion y cyfeirir atynt ym mharagraffau 28 i 36]*

| | |
|---|---|
| Gillian Body<br>Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Hydref 2010 | Swyddfa Archwilio Cymru<br>24 Heol y Gadeirlan<br>Caerdydd<br>CF11 9LJ |

Atodiad 2

# Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r cyrff rhagflaenol yn ystod y chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009 i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau

| Trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol | Cwestiynau ar drefniadau |
|---|---|
| **Pennu amcanion, llunio polisïau a gwneud penderfyniadau** | A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer pennu, adolygu a gweithredu ei amcanion strategol a gweithredol? |
| **Diwallu anghenion defnyddwyr a threthdalwyr** | A yw'r Corff wedi sefydlu dulliau o gyfathrebu â chleifion a'u cynrychiolwyr, a rhanddeiliaid eraill yn cynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro i sicrhau bod negeseuon allweddol ynglŷn â gwasanaethau yn cael eu hystyried? |
| **Cydymffurfiaeth â pholisïau sefydledig** | A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i gynnal system rheolaeth fewnol gadarn, yn cynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol? |
| **Rheoli risgiau gweithredol ac ariannol** | A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli ei risgiau busnes pwysig? |
| **Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill** | A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i werthuso a gwella'r gwerth am arian y mae'n ei gyflawni o ran ei ddefnydd o adnoddau?<br>A yw'r Corff wedi rhoi strategaeth ariannol, cyllidebau a rhaglen gyfalaf tymor canolig ar waith ac iddynt sail gadarn a chyda'r nod o gyflawni ei flaenoriaethau strategol?<br>A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod ei wariant yn cyfateb i'r adnoddau sydd ar gael?<br>A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, gan gymryd camau adferol lle y bo'n briodol, a chyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i uwch reolwyr a'r Bwrdd?<br>A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli ei sail asedau? |
| **Monitro ac adolygu perfformiad** | A yw'r Bwrdd wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro perfformiad a chraffu arno, i nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol, ar gyfer gweithredu lle bo angen a chyflwyno adroddiad i'r Bwrdd?<br>A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro ansawdd ei wybodaeth gyhoeddedig am berfformiad, ac i gyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i aelodau'r Bwrdd? |
| **Safonau ymddygiad priodol ac ati** | A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith gyda'r nod o hyrwyddo a sicrhau gonestrwydd a phriodoldeb wrth gynnal ei fusnes? |

## Atodiad 3

# Adroddiadau a gyflwynwyd ers mis Medi 2009

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Strategaeth archwilio** | |
| • Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf | Rhagfyr 2009 |
| • Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf | Medi 2009 |
| • Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful | Medi 2009 |
| **Archwiliad o'r Cyfrifon Ariannol ac Adroddiad i'r Rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu** | |
| • Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf | Chwefror 2010 |
| • Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf | Chwefror 2010 |
| • Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful | Chwefror 2010 |
| Adroddiad etifeddiaeth | Ionawr 2010 |
| Adroddiadau eraill ar berfformiad (gweler Atodiad 4) | |
| Llythyr Archwilio Blynyddol Cyfunol | Mehefin 2010 |

## Atodiad 4

# Adroddiadau Archwilio Perfformiad

Mae'r tabl canlynol yn dangos y trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau mewn perthynas â phrosiectau archwilio perfformiad, sydd wedi'u nodi yn strategaethau archwilio diweddar y cyrff rhagflaenol.

**Trefniadau cyflwyno adroddiadau ar gyfer gwaith archwilio perfformiad**

| Astudiaeth | Disgwylir i adroddiad gael ei gyflwyno i'r Bwrdd newydd | Wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd newydd ac yn aros am sylwadau | Wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd newydd ac wedi cytuno arno |
|---|---|---|---|
| Staffio wardiau | | | ✓ |
| Adroddiad etifeddiaeth | | | ✓ |
| Ad-drefnu'r GIG (cyflwynwyd adroddiad fel rhan o'r adroddiad etifeddiaeth) | | | ✓ |
| Cywirdeb data rhestrau aros | | ✓ | |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion | ✓ | | |
| Arlwyo mewn Ysbytai | ✓ | | |
| Gwireddu Buddiannau'r Contract Meddygon Ymgynghorol | ✓ | | |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: wales@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk